

PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ddydd Iau 21 Medi 2017 am 2pm,
Parc Trefnadaeth Cwm Rhondda, Trehafod.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cabinet – oedd yn bresennol:

A. Morgan M. Webber J. Rosser
R. Bevan R. Lewis A. Crimmings G. Hopkins
C. Leyshon

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol:

J. Davies, L. Hooper, J. James, E. Webster

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr

Mr C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr C. Hanagan – Cyfarwyddwr – Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus (Ysgrifennydd
i'r Cabinet)

Mr C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i
Blant

Ms E. Thomas – Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mr T. Wilkins – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Ms J. Cook – Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio

Mr P. Mee – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Mr P. Griffiths – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cyflawni a Gwella

Ms C. O'Neill – Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant Strategol

Ms M. Warburton – Ymgynghorydd Adnoddau Dynol – Carfan Materion Cydraddoldeb
ac Amrywioldeb

Mr D. James – Pennaeth Cymunedau a Ffyniant

38. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd M. Norris.

39. CROESO

Croesawodd Arweinydd y Cyngor bawb i'r cyfarfod, a diolch i'r swyddogion ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda am gynnal y cyfarfod. Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r Aelodau a'r Swyddogion y bydd taith o amgylch y cyfleusterau ar ôl y cyfarfod, felly, bydd cyfle i'r Aelodau weld ffrwyth y gwaith ailwampio yn sgil y buddsoddiad diweddar.

40. DATGAN BUDDIANT

Nid oedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda ar yr adeg yma, ond, mae cofnod 46 yn nodi datganiad hwyr gan y Cynghorydd A. Crimmings.

41. GWAITH Y GWASANAETH CELFYDDYDAU O RAN HELPU I GYFLAWNI 7 NOD LLESIANT DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus – amlinelliad i'r Aelodau o waith y Gwasanaeth Celfyddydau a sut mae'r gwaith yn ategu gwaith cyflawni'r saith nod llesiant sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am brosiectau mewn perthynas â'r prosiect 'Fortitude through the Arts', 'Art and Artefact', 'Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifainc' a 'Hynt', gyda phrosiectau o'r fath yn galluogi'r trigolion i fod yn greadigol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd eu bywydau a'u llesiant.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden sylwadau ar y gwaith gwerthfawr sydd wedi ei wneud, y gwaith ymgysylltu â'r cymunedau ac â'r gwahanol genedlaethau drwy'r Gwasanaeth Celfyddydau, a'r angen i hyrwyddo'r gwaith ymhellach ar draws y Fwrdeistref Sirol. Gwnaeth y Dirprwy Aelod o'r Cabinet

ar faterion Ffyniant a Llesiant sylwadau hefyd ar yr effaith gadarnhaol ac ar y sgiliau a'r hyder sy'n cael eu meithrin gan y Gwasanaeth, ynghyd â'r manteision economaidd.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes sylwadau ar y prosiect 'Art and Artefact' a'r dulliau arloesol o ran ymgysylltu â'r gymuned. Soniodd hefyd am gynhwysiant cadarnhaol yn y Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifainc a'r cyfleoedd sydd ar gael o oedran ifanc.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad ar waith y Gwasanaeth Celfyddydau.

42. YR YMGRCH 'DYING TO WORK'

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r ymgyrch 'Dying to Work', sef menter gan Gyngres yr Undebau Llafur ('TUC'). Mae'n ceisio sicrhau bod afiechyd terfynol yn 'nodwedd warchoddedig' er mwyn sicrhau bydd gweithwyr ag afiechyd terfynol yn cael 'cyfnod gwarchoddedig' sy'n golygu na fyddan nhw'n cael eu diswyddo yn sgil eu cyflwr yn ystod eu cyflogaeth.

Rhoddodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wybod i'r Aelodau y byddai cymeradwyo'r ymgyrch 'Dying to Work' yn dangos bod y Cyngor yn cymryd cam cadarnhaol o ran cefnogi ei weithwyr ar yr adegau anoddaf. Ychwanegwyd bod polisïau a phrosesau presennol Adnoddau Dynol eisoes yn ategu'r ymgyrch, ond, bod angen gwella materion cyfathrebu ac amseroldeb y camau gweithredu.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor i'r Swyddog am yr adroddiad, a siarad yn gadarnhaol am yr ymgyrch a'r gwaith mae'r adran Adnoddau Dynol yn ei wneud ar hyn o bryd a'r angen i wella'r trefniadau ar gyfer y staff hynny ag afiechyd terfynol.

Siaradodd yr Arweinydd hefyd o blaid yr ymgyrch, a gwneud sylwadau ar y trafodaethau cadarnhaol yn ystod cyfarfod diweddar o'r Cyngor.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Cefnogi'r ymgyrch 'Dying to Work' fel sydd wedi ei hamlinellu yn yr adroddiad.

43. CYNNIG SEFYDLU YSGOL 3–19 OED AR SAFLE GARTHOLWG

Tynnodd Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes sylw'r Aelodau at yr adroddiad sy'n amlinellu cynnig i sefydlu ysgol 3–19 oed ar safle Gartholwg. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y rhesymau dros y cynnig, gan gynnwys gweithio tuag at argymhellion yn sgil arolygiad Estyn a'r trefniadau sydd ar waith yn yr ysgol ar hyn o bryd, gyda rhai o ddsbarthiadau'r ysgol gynradd eisoes yn defnyddio ystafelloedd dosbarth yn yr ysgol uwchradd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod hyn oherwydd y galw cynyddol yn y dalgylch am leoedd yn yr ysgol gynradd a defnyddio lleoedd sbâr sydd ar gael yn yr ysgol uwchradd ar hyn o bryd.

Meddai'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes fod y cynnig yn un cadarn a rhesymegol sy'n ffurfioli'r trefniadau sydd eisoes ar waith ar y safle, gan ddod â dau gorff llywodraethu o dan un tîm arwain. Ychwanegodd fod y trefniadau diogelu priodol ar gyfer y cynigion eisoes yn eu lle yn yr ysgol.

Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
- b) Dechrau'r broses ymgynghori ffurfiol ynglŷn â'r cynnig canlynol: -
 - Sefydlu ysgol 'bob oed' ar Gampws Dysgu Gydol Oes Gartholwg, Pentre'r Eglwys, Pontypridd, ar gyfer disgyblion rhwng 3 oed a 19 oed. Bydd y cynnig yma'n golygu cau Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Garth Olwg, a throsglwyddo'r disgyblion i'r ysgol newydd ar gyfer disgyblion 3–19 oed ar 1 Medi 2018.

44. CANLYNIADAU'R CYFNOD SYLFAEN, CYFNODAU ALLWEDDOL 2 A 3, A CHANLYNIADAU DROS DRO CYFNOD ALLWEDDOL 4 AR GYFER 2017

Rhoddodd Cyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes fanylion i'r Aelodau am y canlyniadau addysgol dros dro ar gyfer 2017 ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod ysgolion a disgyblion Rhondda Cynon Taf – ar draws y Cyfnod Sylfaen, a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 – wedi bod yn gymharol

gyson, gan ddangos, yn gyffredinol, welliant cynyddol yn unol â chyflawniad yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf.

Aeth y Swyddog yn ei flaen drwy roi gwybod am y newidiadau sylweddol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2017 o ran y cwricwlwm a dull asesu cyflawniad ysgolion. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau na fyddai cymariaethau â chanlyniadau arholiadau'r flwyddyn flaenorol yn ystyrllon – oherwydd dulliau arholi newydd, setiau sgiliau gwahanol a chronfeydd gwybodaeth – a byddai'n cymryd dwy flynedd arall i sefydlu data tueddiadau cymharol ystyrllon.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gadarnhaol ynglŷn â chanlyniadau Cyfnodau Allweddol 2 a 3, ac ychwanegu bod cyfradd y gwelliant yn fwy na chyfartaledd Cymru. O ran Cyfnod Allweddol 4, gwnaeth yr Aelod sylwadau ar effaith y newidiadau newydd ar ganlyniadau cyflawniad, ac ychwanegu nad oes modd cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ond, ychwanegodd y byddai gwaith yn cael ei wneud gyda'r Penaethiaid a Chonsortium Canolbarth y De i geisio dadansoddi'r data a deall yn well yr hyn oedd yn dda, a'r hyn mae angen ei wella, fesul ysgol, ac ym mhob maes pwnc.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** Pwyllgor y Cabinet:

- a) Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
- b) Bydd gwybodaeth fanwl fesul ysgol yn cael ei chyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc – yn y dyfodol ar ôl cael y data terfynol gan Lywodraeth Cymru.

45. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 30 MEHEFIN 2017 (CHWARTER 1)

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cyflawni a Gwella – grynodedb i'r Aelodau am gyflawniad y Cyngor dros dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Mehefin 2017), o ran materion ariannol a gweithredol.

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ati i drafod Crynodeb Gweithredol yr adroddiad yn fanwl, gan gynnwys cynnydd a data ariannol mewn perthynas â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Tynnodd y Swyddog sylw at eithriadau ym mhob un o'r adrannau manwl er mwyn yr Aelodau.

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylwadau ar sefyllfa gadarnhaol y Cyngor ac, ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD**:

Refeniw

- a) Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel y mae ar 30 Mehefin 2017 (Adran 2 o'r adroddiad – Crynodeb Gweithredol).
- b) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau (wedi eu rhestru yn Adrannau 2a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad), sy'n uwch na'r trothwy o £0.100 miliwn yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cyfalaf

- c) Nodi'r gyllideb gyfalaf ddiweddaraf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 a newidiadau yng nghyfanswm cost prosiectau yn ystod y rhaglen dair blynedd (Adrannau 3a–f o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).
- d) Nodi manylion Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel y mae ar 30 Mehefin 2017 (Adran 3g o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

- e) Nodi'r cynnydd ar ddiwedd chwarter 1 mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol cytûn (Adrannau 5a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).

(D.S. Ar ôl y penderfyniad, meddai Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yr eitem yn destun Rheolau Gweithdrefn 'Galw i mewn' y Cyngor oherwydd bod yr eitem yn mynd ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad.)

46. MEYSYDD LLE MAE CYFLEOEDD STRATEGOL

Tynnodd Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sylw'r Aelodau at yr adroddiad sy'n amlinellu ardaloedd lle mae cyfleoedd twf economaidd a chreu swyddi yn Rhondda Cynon Taf. Soniodd y Cyfarwyddwr am y flaenoriaeth, 'adeiladu economi gref', yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Thasglu'r

Cymoedd, gan roi gwybod am bwysigrwydd amlygu a gweithio tuag at sicrhau twf economaidd o safbwynt y Cyngor.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr ardaloedd canlynol wedi eu henwi'n ardaloedd lle mae cyfle strategol:

- Porth Cynon – Gwefru'r rhanbarth
- Pontypridd Ehangach, Trefforest – Cyrion y ddinas, calon y rhanbarth
- Tref Pontypridd – Canolbwynt y rhanbarth
- Coridor A4119: Porth rhanbarthol Rhondda
- Llanilid ar bwys M4: Llywio'r economi ranbarthol

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai i'r Cyfarwyddwr, a'r garfan, am eu gwaith caled o ran amlygu'r ardaloedd lle mae cyfleoedd strategol, a sôn am yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol drwy'r Fargen Ddinesig a Thasglu'r Cymoedd. Gwnaeth sylwadau ar yr angen i fagu dyfodol y Fwrdeistref Sirol drwy gyfleoedd o'r fath er mwyn trigolion y Fwrdeistref Sirol – y rhai ifainc a'r rhai hŷn.

Aeth Arweinydd y Cyngor ati i eilio sylwadau'r Aelod o'r Cabinet a diolch i'r Cyfarwyddwr am yr adroddiad cadarnhaol a gyflwynwyd. Gwnaeth hefyd sylwadau ar y cyfleoedd cadarnhaol sydd ar gael i wella cysylltiadau trafniadaeth, yr effaith gadarnhaol ar faterion addysg a datblygu tai ar draws y Fwrdeistref Sirol, ac ychwanegu nad yw'n adroddiad uchelgeisiol yn unig – byddai'n dwyn ffrwyth yn ystod y 12–18 mis nesaf.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle hefyd i ddiolch i Gyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio a Chyfarwyddwr Gwasanaeth – Priffyrdd a Gofal y Strydoedd – am eu cyfraniadau parhaus a gwerthfawr i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Soniodd y Dirprwy Arweinydd am y gwaith arfaethedig yn nhref Pontypridd, gan wneud sylwadau ar lwyddiant presennol Lido Pontypridd a'r gwaith ynglŷn â safle hen Ganolfan Siopa Cwm Taf.

Holwyd y Cyfarwyddwr ymhellach ynglŷn â gwahanol agweddau ar y cyfleoedd sydd wedi eu hamlinellu, a soniodd yr Aelodau am yr angen i weithio gyda

gwahanol sectorau er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael i fuddsoddi ymhellach yn y cymunedau er mwyn y Fwrdeistref Sirol.

Ar ôl trafod yn fanwl, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) Datblygu'r cynlluniau a'r prosiectau hyn ymhellach yn yr ardaloedd lle mae cyfleoedd strategol sydd wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad, gan gynnwys ymgynghori â thrigolion, fel y bo'n briodol.
- b) Datblygu cyfleoedd gwaith partneriaeth ac ariannu i'w cyflawni, â chyflwyno rhagor o adroddiadau i'r Cabinet yn ôl yr angen.

(**D.S.** Yn ystod yr eitem hon datganodd y Cynghorydd A. Crimmings y buddiant personol canlynol ac aros yn y cyfarfod wrth drafod yr eitem, ond ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ynglŷn â'r eitem:- "Rydw i'n mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Amgen yn gynrychiolydd y Cyngor.")

47. ADOLYGU GWASANAETHAU GOFAL EILAIDD AR GYFER CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU YN ARDAL CWM TAF

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – grynodedd i'r Aelodau o'i adroddiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am "Wasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Integredig" arfaethedig y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dilyn adolygiad o wasanaethau gofal eilaidd ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn ardal Cwm Taf.

Rhoddwyd manylion i'r Aelodau am sut roedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal o'r blaen, yr angen i gynnal adolygiad, a'r ffordd gadarnhaol newydd o weithio sy'n deillio o'r adolygiad. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r model yn seiliedig ar arfer dda bresennol, yn osgoi dyblygu gwasanaethau, ac yn sicrhau defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r model wedi ei adolygu yn sicrhau dull gwasanaeth cyfan sy'n ymateb i anghenion y boblogaeth leol, ac i'r unigolion a'r teuluoedd sy'n ei ddefnyddio. Mae model y gwasanaeth yn seiliedig ar yr egwyddor y bydd unigolion sy'n byw ar hyd a lled ardal Cwm Taf yn gallu manteisio ar y mathau o gymorth, triniaeth a gwasanaethau o'r un ansawdd.

Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar yr adolygiad a'r gwaith cadarnhaol wedi ei wneud i wella'r cymorth sydd ar gael, ac amlygu pwysigrwydd un pwynt mynediad o ran gwella mynediad i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar draws ardal Cwm Taf. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau hefyd ar faterion atal, ac ychwanegu bod y fframwaith gweithio newydd yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Cabinet:

- a) Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 2:55pm

Y Cyngorydd A. Morgan

Cadeirydd